Polisi ar ddefnyddio’r Gymraeg o fewn y Coleg at ddibenion hyrwyddo a hwyluso’r defnydd o'r iaith

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

Cynnwys

1. Cyflwyniad 3
2. Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith cydweithwyr 3
2.1 Recriwtio 3
2.2 Dewis Iaith 4
2.3 Sgiliau Ieithyddol 4
2.4 Hyfforddiant 5
2.5 Cyfleoedd eraill i ddefnyddio'r Gymraeg 5
2.6 Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg 6
2.7 Canllawiau 6
2.8 Llofnodion E-bost 6
2.9 Galwadau ffôn 7
2.10 Arwyddion a Hysbysiadau 7
2.11 Cymorth 7
2.12 Gwasanaeth Cyfeiithu a Chymorth 7
3. Hyrwyddo a Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith dysgwyr ..... **Error! Bookmark not defined.**
3.1 Dewis iaith 8
3.2 Sefydlu 8
3.3 Dogfennau a ffurflenni 8
3.4 Darpariaeth Cwrs 8
3.5 Terminoleg 9
3.6 Llysgenhadon ymhlith Myfyrwyr y Gymraeg 9
3.7 Gweithgareddau anffurfiol gyfer dysgwyr 9
4. Monitro ac Adolygu'r polisi 9

1. Cyflwyniad

Mae Coleg y Cymoedd wedi ymrwymo i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a bydd yn gweithredu i hybu cyfleoedd ar gyfer cydweithwyr a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn y coleg. Arweinir y gwaith gan Dîm y Gymraeg a'i oruchwylio gan Grŵp Cydymffurfiaeth y Coleg a'r Dirprwy Bennaeth/Prif Swyddog Gweithredu.

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i osod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus i gydymffurfio â safonau o ran y Gymraeg – Safonau'r Gymraeg. Ceir y safonau a osodir ar Goleg y Cymoedd yn yr Hysbysiad Cydymffurfiaeth a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017.

Mae gweithrediad y polisi hwn yn unol â gofynion Safon 105:.

Safon 105: Rhaid i chi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol at ddiben hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a rhaid i chi gyhoeddi'r polisi ar eich mewnrwyd.

Ceir rhagor o wybodaeth am Safonau'r Gymraeg a osodwyd ar Goleg y Cymoedd yma ar:

https://www.cymoedd.ac.uk/media/4522/20200312-compliance-notice-as-varied-en-1.pdf

Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y polisi hwn neu am y Safonau yn gyffredinol at Reolwr y Gymraeg yng Ngholeg y Cymoedd.

2. Hyrwyddo a Hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith cydweithwyr

Sicrheir bod cydweithwyr yn ymwybodol o'r cyfleoedd i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg yn y Coleg. Mae'r Coleg yn manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg ymhlith staff, dysgwyr a'r cyhoedd. Gwneir hyn drwy gylch gorchwyl Tîm y Gymraeg.

2.1 Recriwtio

Mae holl ddogfennau'r broses recriwtio yn ddwyieithog ac yn cynnwys y canlynol: hysbysebion swyddi, swydd ddisgrifiadau, manylebau person, ffurflenni cais. Mae gan ymgeiswyr yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cyfweliad. Mae'r ffurflen gais yn gofyn i ymgeiswyr nodi a hoffen nhw i'r cyfweliad gael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

Os na fydd yn bosibl i gynnal y cyfweliad drwy gyfrwng y Gymraeg darperir gwasanaeth cyfieithu.

2.2 Dewis Iaith

Mae Pobl a Diwylliant yn anfon e-bost at bob cydweithiwr bob blwyddyn yn nodi eu hawliau o dan Safonau'r Gymraeg a gofyn i gydweithwyr gofnodi eu dewis iaith o ran gohebiaeth a dderbynnir gan y Coleg. Gall cydweithwyr dderbyn gohebiaeth yn gysylltiedig â'u cyflogaeth yn Gymraeg, Saesneg neu yn ddwyieithog. Bydd Pobl a Diwylliant yn anfon yr holl ohebiaeth yn newis iaith cydweithwyr am weddill y flwyddyn.

Mae system hunan-wasanaeth Adnoddau Dynol y Coleg yn gwbl ddwyieithog. Mae'r system hon yn cynnig cyfle i wneud y canlynol drwy gyfrwng y Gymraeg:

- Neilltuo gwyliau blynyddol
- Neilltuo gweithgaredd dysgu
- Diweddaru manylion personol
- Riportio absenoldebau
- Cael golwg ar slip cyflog a P60
- Cael golwg ar ddogfennaeth PDR (Adolygiad o Ddatblygu Perfformiad) a Datblygiad Gyrfaol

Mae gan gydweithwyr yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod cyfarfodydd yn ymwneud ag achwynion, materion disgyblu neu eu cyflogaeth. Os na ellir cynnal y cyfarfod drwy gyfrwng y Gymraeg, darperir gwasanaeth cyfieithu priodol.

Cynigir y cyfle i gydweithwyr i fynychu hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg yn y meysydd canlynol: sefydlu staff; iechyd a diogelwch; defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd, cyfweliadau a gweithdrefnau achwynion a disgyblu.

2.3 Sgiliau Ieithyddol

Cynhelir arolwg bob dwy flynedd i nodi sgiliau Cymraeg yr holl gydweithwyr gan Dîm y Gymraeg. Mae hyn yn galluogi'r Coleg i ddiweddaru ei anghenion ieithyddol ac i gydlynu a thargedu hyfforddiant a chynllunio gweithlu. Mae'r arolwg yn gofyn i gydweithwyr hunan-asesu eu sgiliau Cymraeg eu hunain yn y meysydd canlynol drwy gwblhau arolwg ar-lein:

* Siarad Cymraeg
* Ysgrifennu Cymraeg
* Deall Cymraeg llafar
* Darllen Cymraeg

Mae'r arolwg hefyd yn cynnwys y cwestiynau canlynol:

- Yn ogystal â'r dyletswyddau statudol a osodir ar y Coleg gan Safonau'r Gymraeg (h.y. ateb y ffôn yn Gymraeg), a fyddech yn fodlon defnyddio'ch sgiliau Cymraeg yn eich rôl?
- Rhowch sylwadau ar y modd yr hoffech chi ddefnyddio'r Gymraeg a pha gymorth fyddech chi'n ei ddymuno.
- A wnaethoch chi fynychu Ysgol Uwchradd Cyfrwng Cymraeg?
- Nodwch yr holl Gymwysterau Iaith Gymraeg sydd gennych.

2.4 Hyfforddiant

Cynorthwyir yr holl gydweithwyr i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg. Mae'r Coleg yn cynnig ystod o gyfleoedd i ddysgu a datblygu sgiliau Cymraeg, yn seiliedig ar anghenion ei weithlu h.y. lefel a gallu ieithyddol, y rôl a siediwlau'r swydd a'r dewis ddull o ddysgu.

Mae'r cyfleoedd hyn yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r canlynol:

- Ystod o gyrsiau rhagarweiniol Cymraeg ar-lein ar wahanol lefelau a ddarperir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.
- 'Cymraeg Gwaith' – Ariennir y prosiect hwn gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol drwy'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'i gydlynu gan ColegauCymru a'i nod ydy cynorthwyo darlithwyr mewn colegau AB i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r rhaglen yn cynnwys 120 awr o hyfforddiant a'i seilio ar gyfuniad o sesiynau addysgu, sesiynau mentora 1-1, arsylwi ar addysgu darlithydd ac astudiaeth annibynnol. Cynigir yr hyfforddiant gan Diwtor Cymraeg y Coleg.
- 'Cymraeg Gwaith (Hunan- Astudiaeth')
- 'Rho Gynnig Arni' – cynllun mentora ar gyfer siaradwyr Cymraeg sydd am ennill hyder yn eu sgiliau ysgrifennu a llafar.
- Cyfleodd i fentora a chyfleoedd hyfforddiant a gynigir gan Sgiliaith.
- Y Coleg yn cyllido i fynychu dosbarthiadau Cymraeg yn y gymuned, y tu allan i oriau gwaith.

2.5 Cyfleoedd eraill i ddefnyddio'r Gymraeg

Anogir cydweithwyr i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg yn anffurfiol o fewn y Coleg. Crëwyd rhwydweithiau ar-lein ar gyfer cydweithwyr Cymraeg eu hiaith ac ar gyfer cydweithwyr sy'n dysgu Cymraeg. Mae Tîm y Gymraeg y Coleg yn trefnu calendr o ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn i annog dysgwyr a chydweithwyr i siarad Cymraeg h.y. Diwrnod Shwmae Sumae; Diwrnod Hawliau'r Gymraeg; Wythnos Gymreig.

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cynnig cyfleoedd i gydweithwyr i ymuno â rwydweithiau cyfrwng Cymraeg ar gyfer meysydd pwnc penodol i drafod cyfleoedd i ddatblygu darpariaeth Cymraeg a dwyieithog o fewn y meysydd hynny.

2.6 Hyfforddiant ar Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg

Mae Hwb DPP y Coleg yn galluogi cydweithwyr i gyrchu hyfforddiant DPP ar-lein o ran gwahanol agweddau o'u datblygiad. Ar ddiwedd pob cwrs, mae'r cydweithiwr yn cwblhau cwis i ennill bathodyn sy'n profi ei f/bod wedi cwblhau'r cwrs. Mae'r hwb yn cynnal cyfres o gyrsiau DPP.

- Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg
- Safonau'r Gymraeg – yr hyn sydd angen i chi ei wybod
- Y Gymraeg a'r cyfryngau cymdeithasol
- Sut i ddrafftio dogfennau dwyieithog
- Gwneud cais am gyfieithu

2.7 Canllawiau

Er mwyn hyrwyddo a hwyluso gweithrediad y Safonau a'r defnydd cyffredinol o'r iaith mae'r Coleg wedi creu canllawiau ar gyfer cydweithwyr o'r enw "Safonau'r Iaith Gymraeg: Yr hyn sydd angen i chi ei wybod". Mae'r rhain yn cynnwys cyfarwyddiadau manwl ar sut i defnyddio'r iaith yn y cyd-destunau canlynol: Arwyddion a Hysbysiadau. Cyhoeddiadau a Dogfennau, Y Cyfryngau Cymdeithasol, Gohebiaeth, Galwadau Ffôn, Cyfarfodydd a Chyfieithu.

Lluniwyd canllawiau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg mewn rhith gyfarfodydd a galwadau ffôn yn ogystal â chyfres o ganllawiau pwnc penodol sy'n rhoi cyngor a chyfarwyddyd ar sut i ymgorffori'r Dimensiwn Cymraeg ar draws y cwricwlwm.

Mae'r canllawiau hyn ar gael ar 'Staff Life/Bywyd Staff'' a'u hyrwyddo i gydweithwyr drwy fideos briffio a ddarperir gan Reolwr y Gymraeg.

2.8 Llofnodion E-bost

Bydd gan yr holl gydweithwyr lofnodion e-bost dwyieithog. Bydd cydweithwyr yn cael y rhain fel rhan o'r broses sefydlu. Mae Cymorth Gweithredol yn anfon templedi negeseuon 'ddim ar gael' i gydweithwyr bob hanner tymor. Gall cydweithwyr sydd yn gwneud cais am neges amgen anfon y neges i'w gyfieithu at Reolwr y Gymraeg.

2.9 Galwadau Ffôn

Mae system ffôn awtomatig Coleg y Cymoedd yn rhoi'r opsiwn i alwyr barhau'r sgwrs yn Gymraeg neu yn Saesneg. Mae pob galwad yn Gymraeg yn cael eu cyfeirio at Gampws Nantgarw lle mae siaradwyr Cymraeg ar gael i ddelio gyda'r alwad yn y Gymraeg.

Bydd pob cydweithiwr yn ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog. Os bydd y galwr yn dymuno parhau'r alwad yn y Gymraeg ond nad yw'r cydweithiwr yn gallu siarad Cymraeg, caiff yr alwad ei throsglwyddo i siaradwr Cymraeg.

2.10 Arwyddion a Hysbysiadau

Bydd pob arwydd a hysbysiad drwy'r holl Goleg yn gwbl ddwyieithog a lleolir y Gymraeg naill ai i'r chwith o'r Saesneg neu uwchben y Saesneg.

2.11 Cymorth

Bydd Tîm y Gymraeg hefyd yn cynnig arweiniad a chyngor i'r holl gydweithwyr, ynghyd â sefydliadau, cwmnïau ac unigolion sy'n darparu gwasanaethau ar ran y Coleg, ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg, cyfieithu ac ymrwymiad y Coleg o dan Safonau statudol y Gymraeg.

2.12 Gwasanaeth Cyfieithu a Chymorth

Mae Tîm y Gymraeg yn darparu gwasanaeth cyfieithu llawn Cymraeg-Saesneg a Saesneg-Cymraeg a chyfieithu ar y pryd ar gyfer y Coleg. Mae Tîm y Gymraeg hefyd yn cynnig gwasanaeth prawf ddarllen i gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg sy'n paratoi eu dogfennau eu hunain trwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff cydweithwyr eu hysbysu am y gwasanaeth hwn yn ogystal â bod yna gyfarpar ar-lein i helpu cydweithwyr gyda chyfieithu.

Mae meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg Cymraeg (Cysgliad) ar gael ar holl gyfrifiaduron personol a gliniaduron y Coleg.

3. Hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ymhlith y dysgwyr

Mae holl gydweithwyr Coleg y Cymoedd yn annog dysgwyr i ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg yn ystod eu cyfnod yn y Coleg. Rheolir yr ymdrechion hyn gan Dîm y Gymraeg. Defnyddir yr iaith gyda dysgwyr yn y ffyrdd canlynol i hybu defnydd o'r iaith yn y Coleg

3.1 Dewis Iaith

Mae ffurflen gofrestru'r Coleg yn gofyn i ddysgwyr gofnodi eu dewis iaith a'u dewis iaith o ran derbyn gohebiaeth gan y Coleg. Gall dysgwyr dderbyn gohebiaeth Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog. Unwaith y bydd y wybodaeth hon wedi'i chasglu, mae ar gael ar system cofnodion myfyrwyr y Coleg (EBS/Ontrack). Rhaid i staff y Coleg barchu'r dewis hwn o ran iaith a defnyddio'r iaith a ddymunir ym mhob gohebiaeth gyffredinol â dysgwyr yn ystod eu cyfnod yn y Coleg. (Dydy hyn ddim yn cynnwys gohebiaeth ynghylch cynnwys cwrs).

3.2 Sefydlu

Yn ystod sesiynau sefydlu mae dysgwyr yn derbyn gwybodaeth am eu hawliau i ddefnyddio'r gwasanaethau Cymraeg yn y Coleg, gan gynnwys eu hawl i gyflwyno gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg (yn amodol ar ganllawiau'r corff dyfarnu) a'u hawl i dderbyn cymorth dysgu a thiwtor personol sy'n siarad Cymraeg os oes angen. Mae'r holl wybodaeth hon wedi'i chynnwys ar adran 'Bywyd Myfyrwyr' y wefan ac yn cael ei hyrwyddo trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol y Coleg.

Mae Tîm y Gymraeg yn cyhoeddi llyfryn yn flynyddol o'r enw 'Cymraeg yn y Coleg'. Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys adran ar hawliau myfyrwyr o dan Safonau'r Gymraeg. Anfonir y llyfryn hwn at bob dysgwr. Mae'r llyfryn hwn hefyd ar gael ym mhob derbynfa ac ar adran 'Bywyd Myfyrwyr' y wefan.

Mae llawlyfr cyrsiau'r Coleg hefyd yn cynnwys adran ar 'Y Gymraeg yn y Coleg' sy'n amlinellu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y Coleg a'r hawliau o dan Safonau'r Gymraeg. Mae pob dysgwr yn derbyn y llawlyfr hwn ar ddechrau ei g(ch)wrs.

3.3 Dogfennau a ffurflenni

Darperir yr holl ddogfennau a ffurflenni sydd ar gael ar gyfer dysgwyr ar lefel gyffredinol (sydd heb fod yn rhan o gynnwys cwrs) yn ddwyieithog neu'n unol â dewis iaith y dysgwr.

3.4 Darparu Cyrsiau

Mae'n ofynnol i feysydd pwnc ddarparu 'Dimensiwn Cymreig' yn eu cyrsiau fel y bo'n briodol. Mae canllawiau wedi'u paratoi gan Dîm y Gymraeg ar sut i ymgorffori'r 'Dimensiwn Cymreig' yn y ddarpariaeth. Mae hyn yn golygu cynnwys y dysgwyr i ennill gwybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru, sy'n cynnwys creu cyfleoedd i ddysgwyr Cymraeg eu hiaith a dysgwyr di-Gymraeg ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r Coleg yn parhau i ddatblygu ei ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog mewn cydweithrediad â phartneriaid allanol megis y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

3.5 Terminoleg

Mae'r Coleg yn darparu rhestrau o dermau ar gyfer pob maes galwedigaethol i gynorthwyo dysgwyr o ysgolion cyfrwng Cymraeg sy'n pontio i'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Saesneg. Mae dysgwyr hefyd yn cael gwybod am wefannau ac 'apiau' Cymraeg a all eu cefnogi yn eu hastudiaethau.

3.6 Llysgenhadon Myfyrwyr Cymraeg

Mae cyfleoedd i siaradwyr Cymraeg weithio fel Llysgenhadon Myfyrwyr Cymraeg. Ariennir y rolau hyn ar hyn o bryd gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r Llysgenhadon yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y Coleg; yn mynychu diwrnodau agored; creu 'vlogs'; helpu gyda digwyddiadau Cymreig ayb.

3.7 Gweithgareddau anffurfiol i ddysgwyr

Mae Coleg y Cymoedd yn cynnal clwb gweithgareddau cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr – 'Clwb Dreigiau'r Cymoedd'. Mae hyn i gefnogi dysgwyr sydd wedi dod i'r Coleg o ysgolion cyfrwng Cymraeg. Cynhelir y clwb ar bob campws ac o bell, yn unol ag anghenion a dewis y dysgwyr a chanllawiau'r Coleg.

Mae'r Coleg hefyd yn cynnal sesiynau 'Dragon Bites'. Mae'r sesiynau hyn ar gyfer dysgwyr o ysgolion cyfrwng Saesneg a hoffai ddysgu rhywfaint o Gymraeg llafar sylfaenol. Cyflwynir y sesiynau hyn o bell.

Mae Tîm y Gymraeg yn trefnu calendr o ddigwyddiadau trwy gydol y flwyddyn i annog dysgwyr a chydweithwyr i siarad Cymraeg h.y. Diwrnod Shwmae Sumae; Diwrnod Hawliau'r Gymraeg; Wythnos Gymraeg.

4. Monitro ac Adolygu'r polisi

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob 3 blynedd ond mae'n bosibl y caiff ei adolygu'n gynharach yn sgil newidiadau i ddeddfwriaeth neu bolisi Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r Gymraeg.